

# BE THE WAVE AR FRIG Y DON

## Llygredd Anweladwy

Cynllun Gwers





<b>Nodau</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o lygredd anweladwy</li> </ul>
<b>Amcanion</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Nodi esiamplau o lygredd anweladwy</li> <li>Esbonio effeithiau lygredd anweladwy, yn enwedig yn y diwydiant ffaswin</li> <li>Creu darn wedi'i uwchgyrchu er mwyn tynnu sylw at lygredd anweladwy</li> <li>Cymhwyso gwybodaeth am lygredd anweladwy i fywyd bob dydd drwy weithredu #Byddwch ar frig y don a rhaglen Eco-Sgolion</li> </ul>

<b>Pwnc Eco-Sgolion</b>	<b>Nodau Byd-eang</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Lleihau Gwastraff</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>6 Dŵr Glân a Glanweithdra</li> <li>12 Treuliant cyfrifol</li> <li>14 Bywyd o dan y dŵr</li> </ul>

<b>Cysylltiad â'r Cwricwlwm yng Nghymru</b>	
<b>Pwrpas</b>	
<p>Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Ymgymryd ag ymchwil a gwerthuso'n feirniadol yr hyn maent yn ei ganfod</li> <li>Adeiladu corff o wybodaeth</li> </ul> <p>Dinasyddion moesegol, gwybodus sy'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cymryd rhan mewn materion cyfoes, deall ac ystyried eu gweithredoedd wrth wneud dewisiadau a gweithredu</li> <li>Dangos eu hymrwymiad i gynaliadwyedd y blaned</li> </ul> <p>Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cysylltu a chymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu syniadau a chynnyrch</li> </ul>	
<b>Beth sy'n Bwysig</b>	Cam Ddilyniant: Pedwar
<p>Gwyddoniaeth a Thechnoleg:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gallaf esbonio sut mae effaith ein gweithredoedd yn cyfrannu tuag at y newidiadau yn yr amgylchedd a bioamrywiaeth.</li> <li>Gallaf fabwysiadu proses ailadroddol i wella fy nghynlluniau dylunio, wrth leihau eu heffaith ar yr amgylchedd a chymdeithas.</li> <li>Gallaf werthuso a chymhwyso arferion gweithio sy'n ystyried effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol.</li> </ul> <p>Dyniaethau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gennyf ddealltwriaeth o'm cyfrifoldebau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol fy hun ac eraill wrth greu dyfodol cynaliadwy.</li> </ul>	
<b>Fframwaith Cymhwysedd Digidol</b>	Cam Ddilyniant: Pedwar
<p>Creu Cynnwys Digidol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gallaf ddewis a defnyddio amrywiaeth o feddalwedd, offer a thechnegau i greu, addasu a chyfuno cydrannau amlgyfrwng ar gyfer ystod o gynulleidfaoedd a dibenion.</li> <li>Gallaf archwilio a datblygu ystod o strwythurau dogfennau testun ffurfiol ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a dibenion.</li> </ul>	
<b>Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd</b>	Cam Ddilyniant: Pedwar
Strategaethau Darllen:	



- Gallaf ddefnyddio casgliad a didyniad i ddeall testunau mwy cymhleth ac ystyried dibynadwyedd yr hyn a ddarllenaf.
- Gallaf grynhoi, cyfuno a dadansoddi gwybodaeth er mwyn cael dealltwriaeth fanwl.

#### Cynefin

Esiamplau o gynnyrch uwchgyrchu sydd wedi'u gwneud yng Nghymru

Esiamplau o ffaswin/dillad sydd wedi'u gwneud yn gynaliadwy yng Nghymru

#### Cyflwyniad

Fel arfer, mae llygredd anweledig yn cyfeirio at gemegion sy'n cael eu rhyddhau i'r dyfrffyrdd. Dyma un o'r ffiniau planedol sydd wedi'i groesi. Ffordd o fesur systemau pridd fel yr hinsawdd, uniondeb biosffer a llygredd cemegol yw ffiniau planedol; ffosfforws a nitradau yn bennaf.

Gweithgaredd 1	Adnoddau ac Offer
<p><b>Darganfod llygredd anweladwy – Helfa Sborion</b></p> <p>Mae disgyblion yn gwneud ymchwil annibynnol am lygredd anweladwy gan ddefnyddio'r daflen waith fel patrwm i ddod o hyd i wybodaeth. Bydd hyn yn cwmpasu achosion, effaith a datrysiadau posibl ar gyfer pob math o lygredd.</p> <p>Gellir argraffo gwybodaeth a'i gosod o gwmpas yr ystafell ddosbarth i ddisgyblion ddod o hyd i'r wybodaeth. Fel arall, gellir creu casgliad o erthyglau a fideos gan ddefnyddio rhaglenni TGCh fel Google Classroom, Wakelet neu Padlet.</p> <p>Cyfarwyddiadau ar gyfer y gweithgaredd ar y Pŵer Bwynt</p> <p>Gallwch ddefnyddio cerddoriaeth sydd wedi'i chysylltu â thema llygredd cemegol i amseri'r gweithgaredd; gwelir esiamplau isod neu gofynnwch i'r disgyblion awgrymu darnau o gerddoriaeth sy'n perthyn i'r thema.</p> <p>Chemicals React gan Aly &amp; AJ (3:01)            Chemical Love gan Stevie Wonder (4:30)            Chemical Warfare gan Dead Kennedys (2:58)            Chemical beats gan y Chemical brothers            Planetary (GO!) gan My Chemical Romance (angen golygu)</p> <p>Adolygu'r wybodaeth a gwyllo  <a href="https://www.youtube.com/watch?v=Zk1J2EW-nmQ&amp;t=4s">https://www.youtube.com/watch?v=Zk1J2EW-nmQ&amp;t=4s</a> i lenwi unrhyw fylchau</p>	<p>Gwers Pŵer Bwynt            Taflenni ymchwil</p> <p>Offer TGCh</p> <p>Taflen Waith Disgyblion Helfa Sborion            (Taflen Ateb Athrawon)</p>



Gweithgaredd 2	Adnoddau ac Offer
<p><b>Y Gorffennol yn erbyn y Presennol– Ochr Dywyll Fasiwn</b></p> <p>Gweithgaredd Darllen a Deall sy'n edrych ar y prosesau sydd eu hangen yn y diwydiant fasiwn a'r effeithiau a datrysiadau.</p> <p>Cwis Logo am fasiwn cynaliadwy</p>	<p>Taflenni Darllen a Deall (wedi'u gwahaniaethu) (Taflen Ateb Athrawon)</p> <p>Cwis Logo mewn Pŵer Bwynt</p>

Gweithgaredd 3	Adnoddau ac Offer
<p><b>Campwaith Uwchgyllchu</b></p> <p>Helpwch i leihau llygredd anweledig drwy uwchgyllchu gan fod y deunyddiau hyn eisoes wedi'u cynhyrchu.</p> <p>Trafodwch yr esiamplau o ddarnau uwchgyllchu, yna casglwch syniadau posibl am eitem uwchgyllchu, gan gynnwys nodiadau sy'n disgrifio nodweddion uwchgyllchu eu syniadau.</p> <p>Dylai hyn helpu i dynnu sylw at lygredd anweladwy. Gall hyn fod yn weithgaredd unigol/pâr/grŵp.</p> <p>Yna gallai'r disgyblion greu eu cynnyrch uwchgyllchu.</p>	<p>Pŵer Bwynt - Cyfarwyddiadau'r gweithgaredd</p> <p>Templed Taflen dylunio</p>

Gweithgaredd Ymestynnol	Adnoddau ac Offer
<p><b>Hysbysebion Hynod</b></p> <p>Gwnewch hysbysiad ar gyfer eich darn uwchgyllchu.</p> <p>Edrychwch ar ddetholiad o hysbysebion, gall fod ar bapur, ffilm, neu ar y cyfryngau cymdeithasol ac adnabod nodweddion sy'n eu gwneud yn llwyddiannus.</p> <p>Datblygwch feini prawf llwyddiant ar gyfer yr hysbyseb, gan sicrhau bod y disgyblion yn cynnwys effaith amgylcheddol fel un o'r meini prawf, gan fod hyn yn wybodaeth allweddol am eu darnau uwchgyllchu.</p> <p>Yna gallai ddisgyblion rannu eu hysbysebion a gallai'r dosbarth/staff bleidleisio i ddewis y tri gorau.</p>	<p>Pŵer Bwynt – Cyfarwyddiadau'r gweithgaredd a detholiad o hysbysebion.</p> <p>TGCh/papur/beiros</p>



## #ArFrigYDon

Cymhwyso'r wybodaeth a gasglwyd yn y wers ar waith fel dinasyddion moesegol a gwybodus. Mae'n agwedd bwysig i sicrhau bod disgyblion yn gwybod bod ganddynt y pŵer i ddeddfu a gwneud newidiadau o fewn eu bywydau eu hunain ac o fewn yr ysgol a'r gymuned ehangach. Mae hefyd yn gam cadarnhaol sy'n helpu i gydbwysu rhai o'r effeithiau negyddol a gafodd eu harchwilio yn y wers.

Penderfynwch ar weithred/camau i'w cymryd naill ai fel unigolion neu fel dosbarth, dyma rai awgrymiadau, neu gallai'r dosbarth gynhyrchu ei hun.

### Ysgol:

- Parêd ffasiwn wedi'i uwchfylchu
- Ymchwilio i gyflenwyr gwisg ysgol; a ydynt yn darparu dillad cynaliadwy? A allech newid i gyflenwr mwy cynaliadwy?
- Codi ymwybyddiaeth o logos ffasiwn cynaliadwy

### Unigol:

- Uwchfylchu darn o ddillad
- Edrychwch am ddillad gyda logos ffasiwn cynaliadwy wrth brynu dillad
- Defnyddiwch siopau elusen, safleoedd ar-lein ail-law a chynlluniau rhentu dillad

## Sefydliadau Defnyddiol / Adnoddau

Marine Conservation Society

Whale and Dolphin Conservation

[Pollution could drive UK orcas to extinction - Whale and Dolphin Conservation \(whales.org\)](http://whales.org)

National Geographic

[Environmental Responsibility \(patagonia.com\)](http://patagonia.com)

[Chemical Pollution : Ocean Health Index](#)

[Use of Chemicals in Daily Life - Examples of Chemical Reactions in Daily Life \(theworldcounts.com\)](http://theworldcounts.com)

[Detox My Fashion - Greenpeace International](#)

[The Impact of Pollution | The World's Largest Lesson \(globalgoals.org\)](http://globalgoals.org)

[Perfluoroalkyl and Polyfluoroalkyl Substances \(PFAS\) \(nih.gov\)](http://nih.gov)

<https://www.instructables.com/Neoprene-Laptop-Bag/>

[23ink](#)

## Gwybodaeth Gefndirol Athrawon

Gweler cyflwyniad 'Pecyn Ymchwil'

## Helfa Sborion - Darganfod Llygredd Anweladwy

Math o Lygredd	Achosion (O ble mae'r llygredd wedi dod?)	Effeithiau (Sut mae'n effeithio ar yr amgylchedd/pobl?)	Atebion Posibl (Beth sy'n cael ei wneud/gallu cael ei wneud i ddatrys hyn neu ei atal?)	Ffeithiau diddorol a nodiadau (Beth arall oeddech chi wedi darganfod, beth oedd wedi each synnu/ rhoi sioc i chi? Sut mae hyn yn gwneud i chi deimlo?)	Ffynonellau/Cyfeiriadau (O ble mae'r wybodaeth wedi dod? Ydy'r wybodaeth yn ddibynadwy/unochrog?)
PFAS a Lliwiau					
Carthion Amrwd					
Gwrteithiau					

# Darllen a Deall - Llygredd Anweladwy

Darllenwch drwy'r wybodaeth a'i defnyddio i ateb y cwestiynau a chwblhau'r tasgau. Mae'r wybodaeth hon yn dod o'r erthygl 'The Dark Side of Fashion'

<https://www.vam.ac.uk/articles/pollution-the-dark-side-of-fashion> gan V&A.

## Tasg - Datrys y cod

Datrysych god brawddeg gyntaf yr erthygl. Mae rhifau wedi'u rhoi yn lle llythrennau. Mae rhai llythrennau a rhifau wedi'u gwneud er mwyn eich helpu i ddechrau'r dasg.

A	B	C	D	E	F	G	H	I	J	K	L	M	N	O	P	Q	R	S	T	U	V	W	X	Y	Z
		7		13	20				8										10					5	

T E T  
 10 22 13 16 14 10 24 17 14 18 15 9 17 18 11 25 23 14  
 C T T C E F T  
 7 9 16 23 10 14 16 10 23 9 24 17 7 13 9 20 25 16 23 4 25 17 14 10 25 9 18  
 F T E T E T E F  
 20 9 17 10 22 13 10 13 12 10 25 18 13 14 16 11 20 14 23 22 25 9 16  
 E E  
 11 13 23 25 21 16 13 17 23

A	B	C	D	E	F	G	H	I	J	K	L	M	N	O	P	Q	R	S	T	U	V	W	X	Y	Z
14	2	7	11	13	20	21	22	25	8	3	18	26	16	9	4	1	17	23	10	24	6	15	12	5	19

T H E N A T U R A L W O R L D I S A  
 10 22 13 16 14 10 24 17 14 18 15 9 17 18 11 25 23 14  
 C O N S T A N T S O U R C E O F I N S P I R A T I O N  
 7 9 16 23 10 14 16 10 23 9 24 17 7 13 9 20 25 16 23 4 25 17 14 10 25 9 18  
 F O R T H E T E X T I L E A N D F A S H I O N  
 20 9 17 10 22 13 10 13 12 10 25 18 13 14 16 11 20 14 23 22 25 9 16  
 D E S I G N E R S .  
 11 13 23 25 21 16 13 17 23

- 1 Gall y canlyniadau fod yn ddeniadol, lliwgar ac yn boblogaidd iawn, ond mae'n hawdd
- 2 anghofio'r niwed mae'r diwydiant ffasiwn yn ei achosi i natur. Heddiw gall prosesau ac
- 3 arferion y diwydiant niweidio amgylcheddau, ecosystemau a chymunedau dynol ledled y
- 4 byd.



5 Mae'r system linellol fodern o gynhyrchu a hybu ffasiwn cyflym tafladwy yn rhoi pwysau ar  
6 adnoddau na ellir eu hadnewyddu ac adnoddau sydd dan fygythiad, yn enwedig dŵr. Mae'n  
7 cynhyrchu llawer iawn o wastraff ac mae'r rhan fwyaf o hyn yn mynd i safleoedd tirlenwi  
8 neu'n cael ei losgi. Gall dulliau a deunyddiau'r diwydiant fasiwn fod yn llygredig iawn. Mae'r  
9 defnydd o danwydd ffosil yn cynhyrchu carbon deuocsid sy'n cyfrannu at gynhesu byd-eang  
10 drwy ddal gwres yn yr atmosffer. Mae llawer o brosesau lliwio a gorffen yn dibynnu ar  
11 gemegion gwenwynig sy'n effeithio ar iechyd gweithwyr. Mae'r cemegion hyn yn cael eu  
12 gollwng i afonydd a systemau dŵr daear gan ddiraddio'r tir, peryglu dŵr yfed ac yn lladd  
13 pysgod. Mae ffibrau synthetig yn y dillad yr ydym yn eu gwisgo bob dydd yn effeithio ar ein  
14 cefnforoedd, afonydd a bywyd morol. Pan fydd y dillad hyn yn cael eu golchi, mae micro  
15 ffibrau bychan plastig sy'n rhy fach i gael eu dal mewn hidlwyr yn mynd i mewn i'r system  
16 ddŵr ac yna i'r gadwyn fwyd.

### 17 **Sut mae hyn wedi digwydd?**

18 Mae'r diwydiant tecstilau a ffasiwn wedi achosi llygredd erioed, ond cynyddodd hyn yn  
19 sylweddol mewn gwledydd fel Prydain wrth i'r diwydiant dyfu yn ystod y 19eg canrif. Yn  
20 ystod y cyfnod hwn, defnyddiodd gwneuthurwyr dechnegau newydd a dulliau cynhyrchu  
21 cyflymach, yn enwedig pŵer stêm. Yn ogystal â hyn, datblygodd adwerthwyr dechnegau  
22 marchnata a gwerthu mwy soffistigedig. Ar yr un pryd, tyfodd y farchnad am ffasiwn wrth i'r  
23 boblogaeth gynyddu, tyfodd incwm gwario ac aeth prisiau dillad i lawr. Wrth i gynhyrchiant  
24 a defnydd o ffasiwn godi, cynyddodd llygredd aer a dŵr hefyd.

25 Mae adroddiadau papur newydd o'r 19eg ganrif yn disgrifio'r amodau afiach yr ydym nawr  
26 yn eu gweld mewn rhai gwledydd sy'n datblygu. Yn 1833, adroddodd y *Manchester Times*  
27 am ddreudod a pheryglon y 'Ffos Ddu' yn Pendleton a oedd wedi gorlifo'r llwybr gerllaw gan  
28 adael dros fetr o fwd wedi'i lygru gan 'wastraff deunyddiau lliwio a baw'. O ganlyniad i hyn,  
29 roedd rhaid cau'r llwybr gan greu problemau i'r cyhoedd. Cyflwynodd Llywodraeth Prydain  
30 ddeddfwriaeth i reoli llygredd o'r 1860au ymlaen, ond roedd hyn yn aml yn ddiffygiol. Er bod





31 y llywodraeth a'r diwydiant yn cydnabod y cysylltiad rhwng iechyd gwael, niwed  
32 amgylcheddol a llygredd, cafodd y peryglon hyn eu derbyn fel pris derbyniol datblygiad  
33 diwydiannol ac roedd gwneuthurwyr yn gyndyn i wario mwy nag oedd yn gwbl  
34 angenrheidiol ar reoli llygredd.

35 Gall dulliau cynhyrchu a defnydd eang o gemegion gwenwynig fod yn beryglus hefyd.  
36 Datblygwyd lliwiau cost isel, ond achoson nhw broblemau croen ac mewn rhai achosion, risg  
37 cynyddol o ganser i'r rhai a oedd yn gweithio gyda nhw. Roedd rhai pobl wedi dioddef o  
38 salwch, chwyddiadau a brechau. Roedd y diwydiant hetiau ffelt yn beryglus achos bod y  
39 rhan fwyaf o weithdai yn defnyddio nitrad mercwrig i gyflymu'r broses. Gellir amsugno  
40 mercwri drwy'r ysgyfaint, y croen a'r stumog ac mae'n aros yn y corff. Mae gwenwyno  
41 mercwri yn effeithio ar y system niwro-echddygol, gan achosi cryndodau hirdymor, poen  
42 meddwl a gwylltineb. Mae un casgliad o hetiau a gafodd eu creu gan ddefnyddio mercwri  
43 wedi'u storio mewn bagiau dan sêl er mwyn atal unrhyw cemegion gwenwynig rhag dianc.

44 Mae'r difrod amgylcheddol a pheryglon iechyd galwedigaethol a oedd unwaith yn gyffredin  
45 ym Mhrydain wedi symud i lefydd eraill erbyn hyn. Mae'r diwydiant tecstilau a ffasiwn  
46 modern yn fyd-eang ac mae'r rhan fwyaf o weithgynhyrchu torfol wedi symud i wledydd  
47 sydd â chostau llafur isel. Mae'r gwledydd hyn yn aml â chyfreithiau llafur ac amgylcheddol  
48 gwan.

49 Mae'r defnydd o gemegion gwenwynig yn parhau i fod yn fater difrifol. Yn 2011 heriodd yr  
50 elusen [Greenpeace](#) y diwydiant. Roedd yr ymgyrch Dadwenwyno (*Detox*) wedi herio  
51 brandiau dillad mawr i gymryd cyfrifoldeb dros effaith amgylcheddol eu cadwyni cyflenwi ac  
52 ymddiried i gyflawni sero gollyngiadau o gemegion peryglus erbyn 2020. Dim ond 80 o  
53 gwmnïau arwyddodd i wneud hynny ac mae cynnydd wedi'i wneud. Serch hynny, dim ond  
54 15% o'r diwydiant byd-eang yw'r cwmnïau hyn.

55



56 **Beth allwn ni ei wneud i newid hyn?**

57 Mae dylunwyr, gwyddonwyr, busnes, y llywodraeth ac ymgyrchwyr yn dod at ei gilydd i  
58 ddatblygu amrywiaeth o atebion uwch ac isel eu technoleg, rhai sydd wedi'u profi a rhai sy'n  
59 arbrofol. Mae gan y rhain y potensial i greu diwydiant glanach, mwy gwyrdd a llai  
60 gwastraffus. Yn hytrach na'r model gweithgynhyrchu llinellol sy'n cymryd, yn gwneud ac yn  
61 gwaredu, mae ymchwil yn ffocysu ar systemau cylchol sy'n cymryd, yn gwneud ac yn ail-  
62 wneud.

63 Atebion eraill yn cynnwys lleihau gwastraff drwy ddylunio eitemau i fod yn fwy gwydn a  
64 chynnig yr opsiwn i addasu: defnyddio deunyddiau cynaliadwy megis lliain sydd wedi'i dyfu  
65 yng Ngorllewin Ewrop; buddsoddi mewn datblygu dulliau masnachol hyfyw o ailgylchu  
66 deunyddiau cyfunol, a throsi gwastraff o ffynonellau nad yw'n decstilau megis bwyd i  
67 ddeunyddiau sy'n addas ar gyfer dillad ac ategolion; lleihau allyriadau carbon drwy  
68 ddefnyddio ffynonellau ynni eraill yn lle tanwydd ffosil, defnyddio canolfannau cynhyrchu  
69 lleol a dulliau ynni effeithlon; lleihau defnydd dŵr a'r defnydd o docsinau mewn prosesau  
70 lliwio a gorffen drwy ddatblygu technolegau newydd; a datblygu deunyddiau bio-ffabrigedig  
71 a phrosesau gwahanol yn seiliedig ar fioleg synthetig fel dewis arall i ddeunyddiau synthetig  
72 sy'n cael eu gwneud yn y diwydiant petrocemegol.

73 Gallem wneud gwahaniaeth hefyd drwy ddewis ac edrych ar ôl ein dillad yn fwy gofalus, eu  
74 gwisgo am gyfnod hirach, prynu llai o ddillad, ailgylchu'r dillad nad ydym yn eu gwisgo a  
75 meddwl am ddewisiadau eraill yn lle prynu, megis cyfnewid neu rentu.

76



Tasg - Atebwch y cwestiynau hyn:

1. Pa adnoddau sydd eu hangen ar ffasiwn?


2. Rhestrwch 2 broblem a'r effeithiau y mae'r diwydiant ffasiwn modern yn gallu eu hachosi.


3. Pa effaith gafodd technoleg newydd ar y diwydiant fasiwn a thecstilau yn ystod y 19eg ganrif?


4. Defnyddiwch y testun i awgrymu rhesymau dros y term Saesneg 'mad as a hatter'.




5. Beth oedd nodau ymgyrch Greenpeace?

--

6. Rhowch 3 ffordd i wneud y diwydiant fasiwn yn fwy cynaliadwy.


**Tasg - Crynhoi**

Ysgrifennwch grynodeb o’r wybodaeth yn yr erthygl gan ddefnyddio **dim mwy na 50 o eiriau.**

Defnyddiwch y grid isod ac ysgrifennwch un gair ym mhob boc.





# Darllen a Deall - Llygredd Anweladwy

Darllenwch yr wybodaeth a'i defnyddio i ateb y cwestiynau a chwblhau'r tasgau.

## Tasg - Datrys y cod

- Mae rhifau wedi cael eu rhoi yn lle llythrennau.
- Mae rhai rhifau a llythrennau wedi'u nodi i'ch helpu i ddechrau'r dasg.
- AWGRYM: Edrychwch am eiriau allweddol

A	B	C	D	E	F	G	H	I	J	K	L	M	N	O	P	Q	R	S	T	U	V	W	X	Y	Z
			24										13	9				17	19						



1 Gall prosesau'r diwydiant ffasiwn niweidio amgylcheddau, ecosystemau a  
2 chymunedau dynol ledled y byd.

3 Mae'r system linellol fodern o gynhyrchu a hybu ffasiwn cyflym tafladwy yn  
4 rhoi pwysau ar adnoddau na ellir eu hadnewyddu ac adnoddau sydd dan  
5 fygythiad. Mae'r broses angen llawer o ddŵr ac mae'n cynhyrchu llawer iawn o  
6 wastraff ac mae'r rhan fwyaf o hyn yn mynd i safleoedd tirlenwi neu'n cael ei  
7 losgi.

8 Mae'r defnydd o danwydd ffosil yn creu carbon deuocsid sy'n cyfrannu at  
9 gynhesu byd-eang drwy ddal gwres yn yr atmosffer.

10 Mae llawer o brosesau lliwio a gorffen yn dibynnu ar gemegion gwenwynig sy'n  
11 effeithio ar iechyd gweithwyr. Mae'r cemegion hyn yn cael eu gollwng i  
12 afonydd a systemau dŵr daear gan beryglu dŵr yfed ac yn lladd pysgod.

13 Mae ffibrau synthetig yn ein dillad yn effeithio ar ein cefnforoedd, afonydd a  
14 bywyd morol. Pan fydd y dillad yn cael eu golchi, mae micro ffibrau bychan sy'n  
15 rhy fach i gael eu dal mewn hidlwyr yn mynd i mewn i'r system ddŵr ac yna i'r  
16 gadwyn fwyd.

7. Pa adnoddau sydd eu hangen i gynhyrchu ffasiwn/dillad?




8. Rhestrwch 2 broblem mae'r diwydiant ffasiwn modern yn eu hachosi.


Sut mae hyn wedi digwydd?

17 Gwnaeth llygredd gynyddu'n sylweddol mewn gwledydd fel Prydain wrth i'r  
18 diwydiant dyfu yn ystod y 19eg ganrif. Defnyddiodd gwneuthurwyr dechnegau  
19 newydd fel pŵer stêm a datblygodd arwerthwyr dechnegau marchnata a  
20 gwerthu mwy soffistigedig.

21 Ar yr un pryd, tyfodd y boblogaeth, yr incwm gwario ac aeth prisiau dillad i  
22 lawr.

23 Mae adroddiadau papur newydd o'r 19eg ganrif yn disgrifio'r amodau afiach.  
24 Yn 1833, adroddodd y *Manchester Times* am ddrewdod a pheryglon y Ffos  
25 Ddu' yn Pendleton a oedd wedi gorlifo'r llwybr gerllaw. Roedd dros fetr o fwd  
26 wedi'i lygru gan wastraff deunyddiau lliwio a baw'. O ganlyniad i hyn, roedd  
27 rhaid cau'r llwybr gan greu problemau i'r cyhoedd.

28 Cyflwynodd Llywodraeth Prydain ddeddfwriaeth i reoli llygredd o'r 1860au  
29 ymlaen, ond mewn gwirionedd, doedd hyn ddim yn gweithio. Cafodd y  
30 peryglon eu derbyn fel pris derbyniol datblygiad diwydiannol ac roedd  
31 gwneuthurwyr yn gyndyn i wario mwy nag oedd yn gwbl angenrheidiol ar reoli  
32 llygredd.



9. Pa effaith gafodd technoleg newydd ar y diwydiant ffasiwn a thecstilau yn ystod y 19eg ganrif?


33 Gall dulliau cynhyrchu a defnydd eang o gemegion gwenwynig fod yn beryglus  
34 hefyd. Datblygwyd lliwiau cost isel, ond achoson nhw broblemau croen. Mewn  
35 rhai achosion, roedd y lliwiau newydd wedi achosi risg cynyddol o ganser i'r  
36 rhai a oedd yn gweithio gyda nhw. Roedd rhai pobl wedi dioddef o salwch,  
37 chwyddiadau a brechau.

38 Roedd y diwydiant hetiau ffelt yn beryglus achos bod y fwyaf o weithdai yn  
39 defnyddio nitrad mercwrig i gyflymu'r broses. Gellir amsugno mercwri drwy'r  
40 ysgyfaint, y croen a'r stumog ac mae'n aros yn y corff. Mae gwenwyno mercwri  
41 yn effeithio ar y system niwro-echddygol gan achosi cryndodau hirdymor, poen  
42 meddwl a gwylltineb.

10. Yn Saesneg mae'r term 'mad as a hatter' yn cael ei ddefnyddio. Beth oedd y problemau iechyd a gafodd eu hachosi i bobl a wnaeth hetiau ffelt?

--






### **Beth allwn ni ei wneud i newid hyn?**

43 Mae dylunwyr, gwyddonwyr, busnes, llywodraethau ac ymgyrchwyr yn dod at  
44 ei gilydd i ddatblygu amrywiaeth o atebion. Yn hytrach na'r system linellol sy'n  
45 cymryd, yn gwneud ac yn gwaredu, mae ymchwil yn canolbwyntio ar systemau  
46 cylchol sy'n cymryd, yn gwneud ac yn ail-wneud.

47 Atebion eraill yn cynnwys:

- 48 • Lleihau gwastraff drwy ddylunio eitemau i fod yn fwy gwydn.
- 49 • Defnyddio deunyddiau cynaliadwy fel lliain.
- 50 • Lleihau allyriadau carbon drwy ddefnyddio ffynonellau ynni eraill yn lle  
51 tanwydd ffosil.
- 52 • Lleihau defnydd dŵr.
- 53 • Lleihau'r defnydd o docsinau yn y broses liwio a gorffen.

54 Rydym yn gallu gwneud gwahaniaeth drwy ddewis ac edrych ar ôl ein dillad yn  
55 fwy gofalus drwy eu gwisgo am gyfnod hirach, prynu llai o ddillad, ailgylchu'r  
56 dillad nad ydym eu heisiau a meddwl am ddewisiadau eraill yn lle prynu, megis  
57 cyfnewid neu rentu.

11. Rhestrwch 3 ffordd i wneud y diwydiant ffasiwn yn fwy cynaliadwy


**Tasg - Crynhoi**

Ysgrifennwch grynodeb o'r wybodaeth yn yr erthygl gan ddefnyddio **dim mwy na 50 o eiriau**.

Defnyddiwch y grid isod ac ysgrifennwch un gair ym mhob boc.

**AWGRYM:** Meddyliwch - beth yw'r 3 ffaith fwyaf pwysig yr hoffech rannu.




## Darllen a Deall - Llygredd Anweladwy

### NODIADAU ATHRAWON

Darllenwch drwy'r wybodaeth a'i defnyddio i ateb y cwestiynau a chwblhau'r tasgau. Mae'r wybodaeth hon yn dod o'r erthygl 'The Dark Side of Fashion'

<https://www.vam.ac.uk/articles/pollution-the-dark-side-of-fashion> gan V&A.

### Tasg - Datrys y cod

Datrysych god brawddeg gyntaf yr erthygl. Mae rhifau wedi'u rhoi yn lle llythrennau. Mae rhai llythrennau a rhifau wedi'u gwneud er mwyn eich helpu i ddechrau'r dasg.

**AWGRYM:** Gall disgyblion chwilio am eiriau allweddol e.e. ffasiwn yn y testun.

A	B	C	D	E	F	G	H	I	J	K	L	M	N	O	P	Q	R	S	T	U	V	W	X	Y	Z
		7		13	20				8										10					5	

T E T

10 22 13      16 14 10 24 17 14 18      15 9 17 18 11      25 23      14

C T T C E F T

7 9 16 23 10 14 16 10      23 9 24 17 7 13      9 20      25 16 23 4 25 17 14 10 25 9 16

F T E T E T E F

20 9 17      10 22 13      10 13 12 10 25 18 13      14 16 11      20 14 23 22 25 9 16

E E

11 13 23 25 21 16 13 17 23

A	B	C	D	E	F	G	H	I	J	K	L	M	N	O	P	Q	R	S	T	U	V	W	X	Y	Z
14	2	7	11	13	20	21	22	25	8	3	18	26	16	9	4	1	17	23	10	24	6	15	12	5	19

T H E N A T U R A L W O R L D I S A

10 22 13      16 14 10 24 17 14 18      15 9 17 18 11      25 23      14

C O N S T A N T S O U R C E O F I N S P I R A T I O N

7 9 16 23 10 14 16 10      23 9 24 17 7 13      9 20      25 16 23 4 25 17 14 10 25 9 16

F O R T H E T E X T I L E A N D F A S H I O N

20 9 17      10 22 13      10 13 12 10 25 18 13      14 16 11      20 14 23 22 25 9 16

D E S I G N E R S .

11 13 23 25 21 16 13 17 23

Mae llinellau wedi'u hychwanegu er mwyn cynorthwyo wrth ddarllen drwy'r testun a

chefnogi darllen dan arweiniad.



1 Gall y canlyniadau fod yn ddeniadol, lliwgar ac yn boblogaidd iawn, ond mae'n hawdd  
2 anghofio'r niwed mae'r diwydiant ffasiwn yn ei achosi i natur. Heddiw gall prosesau ac  
3 arferion y diwydiant niweidio amgylcheddau, ecosystemau a chymunedau dynol ledled y  
4 byd.

5 Mae'r system linellol fodern o gynhyrchu a hybu ffasiwn cyflym tafladwy yn rhoi pwysau ar  
6 adnoddau na ellir eu hadnewyddu ac adnoddau sydd dan fygythiad, yn enwedig dŵr. Mae'n  
7 cynhyrchu llawer iawn o wastraff ac mae'r rhan fwyaf o hyn yn mynd i safleoedd tirlenwi  
8 neu'n cael ei losgi. Gall dulliau a deunyddiau'r diwydiant fasiwn fod yn llygredig iawn. Mae'r  
9 defnydd o danwydd ffosil yn cynhyrchu carbon deuocsid sy'n cyfrannu at gynhesu byd-eang  
10 drwy ddal gwres yn yr atmosffer. Mae llawer o brosesau lliwio a gorffen yn dibynnu ar  
11 gemegion gwenwynig sy'n effeithio ar iechyd gweithwyr. Mae'r cemegion hyn yn cael eu  
12 gollwng i afonydd a systemau dŵr daear gan ddiraddio'r tir, peryglu dŵr yfed ac yn lladd  
13 pysgod. Mae ffibrau synthetig yn y dillad yr ydym yn eu gwisgo bob dydd yn effeithio ar ein  
14 cefnforoedd, afonydd a bywyd morol. Pan fydd y dillad hyn yn cael eu golchi, mae micro  
15 ffibrau bychan plastig sy'n rhy fach i gael eu dal mewn hidlwyr yn mynd i mewn i'r system  
16 ddŵr ac yna i'r gadwyn fwyd.

#### 17 **Sut mae hyn wedi digwydd?**

18 Mae'r diwydiant tecstilau a ffasiwn wedi achosi llygredd erioed, ond cynyddodd hyn yn  
19 sylweddol mewn gwledydd fel Prydain wrth i'r diwydiant dyfu yn ystod y 19eg canrif. Yn  
20 ystod y cyfnod hwn, defnyddiodd gwneuthurwyr dechnegau newydd a dulliau cynhyrchu  
21 cyflymach, yn enwedig pŵer stêm. Yn ogystal â hyn, datblygodd adwerthwyr dechnegau  
22 marchnata a gwerthu mwy soffistigedig. Ar yr un pryd, tyfodd y farchnad am ffasiwn wrth i'r



23 boblogaeth gynyddu, tyfodd incwm gwario ac aeth prisiau dillad i lawr. Wrth i gynhyrchiant  
24 a defnydd o ffasiwn godi, cynyddodd llygredd aer a dŵr hefyd.

25 Mae adroddiadau papur newydd o'r 19eg ganrif yn disgrifio'r amodau afiach yr ydym nawr  
26 yn eu gweld mewn rhai gwledydd sy'n datblygu. Yn 1833, adroddodd y *Manchester Times*  
27 am ddrewdod a pheryglon y 'Ffos Ddu' yn Pendleton a oedd wedi gorlifo'r llwybr gerllaw gan  
28 adael dros fetr o fwd wedi'i lygru gan 'wastraff deunyddiau lliwio a baw'. O ganlyniad i hyn,  
29 roedd rhaid cau'r llwybr gan greu problemau i'r cyhoedd. Cyflwynodd Llywodraeth Prydain  
30 ddeddfwriaeth i reoli llygredd o'r 1860au ymlaen, ond roedd hyn yn aml yn ddiffygiol. Er bod  
31 y llywodraeth a'r diwydiant yn cydnabod y cysylltiad rhwng iechyd gwael, niwed  
32 amgylcheddol a llygredd, cafodd y peryglon hyn eu derbyn fel pris derbyniol datblygiad  
33 diwydiannol ac roedd gwneuthurwyr yn gyndyn i wario mwy nag oedd yn gwbl  
34 angenrheidiol ar reoli llygredd.

35 Gall dulliau cynhyrchu a defnydd eang o gemegion gwenwynig fod yn beryglus hefyd.  
36 Datblygwyd lliwiau cost isel, ond achoson nhw broblemau croen ac mewn rhai achosion, risg  
37 cynyddol o ganser i'r rhai a oedd yn gweithio gyda nhw. Roedd rhai pobl wedi dioddef o  
38 salwch, chwyddiadau a brechau. Roedd y diwydiant hetiau ffelt yn beryglus achos bod y  
39 rhan fwyaf o weithdai yn defnyddio nitrad mercwrig i gyflymu'r broses. Gellir amsugno  
40 mercwri drwy'r ysgyfaint, y croen a'r stumog ac mae'n aros yn y corff. Mae gwenwyno  
41 mercwri yn effeithio ar y system niwro-echddygol, gan achosi cryndodau hirdymor, poen  
42 meddwl a gwylltineb. Mae un casgliad o hetiau a gafodd eu creu gan ddefnyddio mercwri  
43 wedi'u storio mewn bagiau dan sêl er mwyn atal unrhyw cemegion gwenwynig rhag dianc.

44 Mae'r difrod amgylcheddol a pheryglon iechyd galwedigaethol a oedd unwaith yn gyffredin  
45 ym Mhrydain wedi symud i lefydd eraill erbyn hyn. Mae'r diwydiant tecstilau a ffasiwn  
46 modern yn fyd-eang ac mae'r rhan fwyaf o weithgynhyrchu torfol wedi symud i wledydd



47 sydd â chostau llafur isel. Mae'r gwledydd hyn yn aml â chyfreithiau llafur ac amgylcheddol  
48 gwan.

49 Mae'r defnydd o gemegion gwenwynig yn parhau i fod yn fater difrifol. Yn 2011 heriodd yr  
50 elusen [Greenpeace](#) y diwydiant. Roedd yr ymgyrch Dadwenwyno (*Detox*) wedi herio  
51 brandiau dillad mawr i gymryd cyfrifoldeb dros effaith amgylcheddol eu cadwyni cyflenwi ac  
52 ymddiried i gyflawni sero gollyngiadau o gemegion peryglus erbyn 2020. Dim ond 80 o  
53 gwmnïau arwyddodd i wneud hynny ac mae cynnydd wedi'i wneud. Serch hynny, dim ond  
54 15% o'r diwydiant byd-eang yw'r cwmnïau hyn.

55

#### 56 **Beth allwn ni ei wneud i newid hyn?**

57 Mae dylunwyr, gwyddonwyr, busnes, y llywodraeth ac ymgyrchwyr yn dod at ei gilydd i  
58 ddatblygu amrywiaeth o atebion uwch ac isel eu technoleg, rhai sydd wedi'u profi a rhai sy'n  
59 arbrofol. Mae gan y rhain y potensial i greu diwydiant glanach, mwy gwyrdd a llai  
60 gwastraffus. Yn hytrach na'r model gweithgynhyrchu llinellol sy'n cymryd, yn gwneud ac yn  
61 gwaredu, mae ymchwil yn ffocysu ar systemau cylchol sy'n cymryd, yn gwneud ac yn ail-  
62 wneud.

63 Atebion eraill yn cynnwys lleihau gwastraff drwy ddylunio eitemau i fod yn fwy gwydn a  
64 chynnig yr opsiwn i addasu: defnyddio deunyddiau cynaliadwy megis lliain sydd wedi'i dyfu  
65 yng Ngorllewin Ewrop; buddsoddi mewn datblygu dulliau masnachol hyfyw o ailgylchu  
66 deunyddiau cyfunol, a throsi gwastraff o ffynonellau nad yw'n decstilau megis bwyd i  
67 ddeunyddiau sy'n addas ar gyfer dillad ac ategolion; lleihau allyriadau carbon drwy  
68 ddefnyddio ffynonellau ynni eraill yn lle tanwydd ffosil, defnyddio canolfannau cynhyrchu  
69 lleol a dulliau ynni effeithlon; lleihau defnydd dŵr a'r defnydd o docsinau mewn prosesau  
70 lliwio a gorffen drwy ddatblygu technolegau newydd; a datblygu deunyddiau bio-ffabrigedig



- 71 a phrosesau gwahanol yn seiliedig ar fioleg synthetig fel dewis arall i ddeunyddiau synthetig  
72 sy'n cael eu gwneud yn y diwydiant petrocemegol.
- 73 Gallem wneud gwahaniaeth hefyd drwy ddewis ac edrych ar ôl ein dillad yn fwy gofalus, eu  
74 gwisgo am gyfnod hirach, prynu llai o ddillad, ailgylchu'r dillad nad ydym yn eu gwisgo a  
75 meddwl am ddewisiadau eraill yn lle prynu, megis cyfnewid neu rentu.



Tasg - Atebwch y cwestiynau hyn:

12. Pa adnoddau sydd eu hangen ar ffasiwn?

Dŵr
Gwaredu gwastraff – sy'n mynd i safleoedd tirlenwi neu'n cael ei losgi
Tanwydd ffosil ar gyfer ynni
Lliwiau/cemegion

13. Rhestrwch 2 broblem a'r effeithiau y mae'r diwydiant ffasiwn modern yn gallu eu hachosi.

Mae tanwydd ffosil yn creu carbon deuocsid sy'n cyfrannu tuag at gynhesu byd-eang gan ddal gwres yn yr atmosffer. Llinellau 7-8
Mae'r broses liwio yn creu cemegion gwenwynig sy'n gallu effeithio ar iechyd gweithwyr. Mae'r cemegion hyn yn mynd i mewn i afonydd a dŵr daear gan ladd anifeiliaid yn yr afonydd. Llinellau 8-10
micro ffibrau - ffibrau bychan plastig (synthetig) sy'n cael eu golchi oddi ar ddillad yn mynd i mewn i'r system ddŵr a'r gadwyn fwyd (yn yr afonydd a'r cefnforoedd). Llinellau 11-13

14. Pa effaith gafodd technoleg newydd ar y diwydiant fasiwn a thecstilau yn ystod y 19eg ganrif?

Tyfodd wrth i dechnegau marchnata a gwerthu ddatblygu
Roedd pŵer stêm wedi caniatáu gweithgynhyrchu cyflymach ac aeth prisiau i lawr.
Cynnydd mewn llygredd. (rhywfaint o ddeddfwriaeth, ond roedd hyn yn ddiffygiol)
Cynnydd mewn iechyd gwael oherwydd cemegion gwenwynig.





15. Defnyddiwch y testun i awgrymu rhesymau dros y term Saesneg 'mad as a hatter'.  
(Llinellau 32-37)

Roedd gwneud hetiau ffelt yn beryglus gan fod nitrad mercwrig wedi cael ei ddefnyddio i gyflymu'r broses. Gellir amsugno mercwri drwy'r croen, yr ysgyfaint a'r stumog ac yna mae'n aros yn y corff.

Mae gwenwyno mercwri yn effeithio ar y system niwro-echddygol gan achosi crynodau, poen meddwl a gwylltineb.

16. Beth oedd nodau ymgyrch Greenpeace?

Bod cwmnïau yn cymryd cyfrifoldeb am effaith amgylcheddol eu cadwyni cyflenwi  
Ymrwyo i sicrhau sero gollyngiadau o gemegion peryglus erbyn 2020.

17. Rhowch 3 ffordd i wneud y diwydiant fasiwn yn fwy cynaliadwy.

Systemau cylchol  
Lleihau allyriadau carbon drwy beidio â defnyddio tanwydd ffosil  
Defnyddio deunyddiau bio-ffabrigedig  
Cyfnewid neu rentu dillad

Gwneud eitemau sy'n fwy gwydn/ sy'n para'n hirach  
Ailgylchu dillad  
Lleihau defnydd dŵr  
Lleihau tocsinau yn y broses liwio

Ailgylchu deunyddiau cyfunol  
Defnyddio deunyddiau cynaliadwy fel lliain  
Prynu llai o ddillad  
Gwisgo dillad am gyfnodau hirach



Tasg - Crynhoi

Ysgrifennwch grynodedb o'r wybodaeth yn yr erthygl gan ddefnyddio **dim mwy na 50 o eiriau**.

Defnyddiwch y grid isod ac ysgrifennwch un gair ym mhob bocs.


Enw:

Dyddiad:

### Gweithgaredd 3 Campwaith Uwchgylchu

**Tasg:** Dylunio eitem wedi'i gwneud o ddeunyddiau sydd wedi'u hailgylchu

**Nod:** Helpu i leihau llygredd anweladwy drwy uwchgylchu. Mae uwchgylchu yn defnyddio pethau sydd wedi'u gwneud yn barod, felly mae ail-ddylunio'r eitemau hyn yn lleihau'r effaith y maen nhw'n ei chael ar y blaned ac yn eu hatal rhag mynd i domennydd gwastraff.

Nodiadau:

Adborth:

### Dyluniad 1

Llun o'r eitem:

Cost:

Cwsmer:


Amgylchedd

Diogelwch:

Maint :

Defnydd:

Defnyddiau:



### Dyluniad 2

Llun o'r eitem:

Cost:

Cwsmer:


Amgylchedd

Diogelwch:

Maint :

Defnydd:

Deunyddiau:





cadwch keep  
gymru'n wales  
daclus tidy

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB | 33-35 Cathedral Rd, Cardiff, CF11 9HB  
029 2025 6767 keepwalestidy.cymru info@keepwalestidy.cymru

Cadwch Gymru'n Daclus yn gwmni wedi ei gyfyngu trwy warant. Rhif Cwmni: 4011164 Rhif Elusen: 1082058 Rhif TAW: 850 3958 13  
Keep Wales Tidy is a Company Limited by Guarantee. Company Registration Number: 4011164 Charity Registration Number: 1082058 VAT Registration Number: 850 3958 13

